# EVANS, DAVID (1778 - 1866), gweinidog gyda'r Bedyddwyr, 'Dafydd Evans, Ffynnonhenri'

**Enw:** David Evans
**Dyddiad geni:** 1778
**Dyddiad marw:** 1866
**Rhiant:** Jane Evans
**Rhiant:** Stephen Evans
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Bedyddwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Na chymysger ef â'r David Evans arall a fu'n weinidog yn yr un lle (ac yn Heol-y-prior, Caerfyrddin) o 1765 hyd 1793.

Ganwyd Dafydd Evans yn Nant-y-fen, Cynwyl Elfed, yn fab i Stephen a Jane Evans, a bu yn ysgol Arthur Evans yng Nghynwyl. Dechreuodd bregethu tua 1808, ac yn wythnos y Pasg 1811 urddwyd ef yn gyd-weinidog yn Ffynnon-henri.

Yn 1846, fel protest yn erbyn dyfarniad cyfreithiol a oedd (yn ei farn bendant ef) yn gwneud cam ag ef gwell fu ganddo fynd i garchar Caerfyrddin am ddwy flynedd a hanner nag ymostwng. Bu farw 5 Mawrth 1866, 'yn 88 oed' meddai carreg ei fedd. Dyna'r cwbl o ffeithiau a dyddiadau ei yrfa sydd ar glawr.

Eithr y pethau na ellir ymhelaethu arnynt yma a wnaeth ei le i Ddafydd Evans yng nghof ei fro a'i genedl, sef ei wreiddioldeb, ei ffraethineb - ei odrwydd, yn wir. Disgrifir y rhain yn y llyfr arno gan Benjamin Thomas ('Myfyr Emlyn'), a gyhoeddwyd gyntaf yn 1870 ac a aeth drwy sawl argraffiad, gan werthu wrth y miloedd.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Darllen Pellach

Benjamin Thomas, *Dafydd Evans, Ffynonhenry* (Castellnewydd-Emlyn 1870)

Benjamin Thomas, *Ffraethebion Dafydd Evans, Ffynonhenry* (Caerfyrddin 1908)

Sidney J. Jenkins, *Hanes Eglwys y Bedyddwyr, Ffynnonhenri* (1930)

## Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: NLW MS 2923C: David Evans, Ffynnonhenry, 1843-1846

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu